# Canllawiau'r Broses Dychwelyd i Ymarfer

## Canllawiau ar gyfer Aseswyr ac Osteopathiaid

Cyngor Osteopathig Cyffredinol

# Cynnwys

Canllawiau'r Broses Dychwelyd i Ymarfer 3

> Cyflwyniad
> Nodau
> Camau
> Deilliannau
> Adroddiadau
> Arweiniad

Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer –
Canllawiau ar gyfer Osteopathiaid 5

Trafodaeth Dychwelyd i Ymarfer –
Canllawiau ar gyfer Osteopathiaid 5

Atodiad 1 7

> Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer

Atodiad 2 13

> Trafodaeth Dychwelyd i Ymarfer – Cwestiynau ar gyfer Adolygwyr

Atodiad 3 19

> Templed Adroddiad y Broses Dychwelyd i Ymarfer

## Cyflwyniad

1. Mae angen i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) sicrhau bod pob osteopath ar ei gofrestr yn addas i ymarfer yn unol â'r safonau a nodir yn y *Safonau Ymarfer Osteopathig* sydd ar gael ar wefan y Cyngor: www.osteopathy.org.uk

2. Os yw osteopath wedi bod oddi ar y gofrestr neu heb ymarfer am gryn amser, mae'n bosibl y bydd wedi colli rhai o'r sgiliau, y cymhwysedd neu'r wybodaeth angenrheidiol sy'n ei wneud yn ymarferydd diogel a chymwys. Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r risg hon gynyddu ar ôl cyfnod o 24 mis oddi ar y gofrestr neu beidio ag ymarfer, ac mae'n gweithredu proses dychwelyd i ymarfer er mwyn gwerthuso'r risg. Bwriad y broses yw cefnogi osteopathiaid a chyfrannu at eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Caiff y broses ei chynnal gan osteopathiaid profiadol sy'n gweithio yn y maes ac sy'n gweithredu fel adolygwyr y Cyngor. Mae'r broses yn dechrau trwy adolygu gwybodaeth gryno a gyflwynir gan yr osteopath, a gallai trafodaeth gyda'r adolygwyr ddilyn wedyn. Caiff adroddiad ei lunio ar ôl pob cam, ac mae'n gwneud argymhellion i'r osteopath a gall gynnwys arweiniad i gynorthwyo gyda'i DPP.

3. Mae'r broses yn gyfrinachol, a gofynnir i adolygwyr ac osteopathiaid nodi unrhyw fuddiannau a allai wrthdaro cyn dechrau'r broses.

## Nodau

4. Nodau'r broses dychwelyd i ymarfer yw:
   > Sicrhau bod osteopathiaid sydd wedi bod oddi ar y gofrestr neu heb ymarfer am gyfnod o 24 mis yn addas i ymarfer mewn ffordd ddiogel a chymwys, a'u bod yn cydymffurfio â'r *Safonau Ymarfer Osteopathig*.
   > Cynnig arweiniad i'r osteopath ar sut i ddychwelyd i ymarfer neu ddychwelyd i'r gofrestr.
   > Cynnig arweiniad i'r osteopath ar weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn ei gynorthwyo i ddychwelyd i ymarfer neu i'r gofrestr.

## Camau

5. Os yw osteopath wedi bod oddi ar y gofrestr neu heb ymarfer am gyfnod o 24 mis neu fwy, dylai gwblhau ffurflen hunanasesu a chael trafodaeth cyn dychwelyd i ymarfer. Mae'r manylion i'w gweld isod.

### Ffurflen Hunanasesu:

6. I ddechrau, bydd osteopath yn hysbysu'r Cyngor ei fod yn dymuno adfer ei statws fel ymarferydd llawn neu ddychwelyd i'r gofrestr. Rhoddir Ffurflen Hunanasesu (Atodiad 1) i'r osteopath i'w chwblhau a'i dychwelyd. Mae'r ffurflen yn cynnwys nifer o gwestiynau sy'n holi beth y bu'r osteopath yn ei wneud pan nad oedd yn ymarfer i gynnal ei wybodaeth a'i sgiliau, gan gynnwys cyflwyno ei ofynion DPP gorfodol os yw'r osteopath wedi aros ar gofrestr y Cyngor. Hefyd, mae'n gofyn i'r osteopath nodi ei gynlluniau ar gyfer dychwelyd i ymarfer, unrhyw feysydd i'w datblygu a sut mae'n bwriadu cryfhau'r meysydd hyn.

7. Ar ôl ei llenwi anfonir y ffurflen at ddau o adolygwyr y Cyngor. Byddant yn ei hystyried ac yn penderfynu a yw'r osteopath yn barod i ddychwelyd i ymarfer neu i'r gofrestr ar unwaith neu a oes angen rhagor o gymorth arno. Yn ystod y cam hwn, gellir adfer neu dderbyn yr osteopath i'r gofrestr fel ymarferydd llawn, gyda neu heb arweiniad ysgrifenedig. Os oes angen rhagor o gymorth ar yr osteopath, bydd yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn trafodaeth wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn.

### Trafodaeth

8. Cynhelir y drafodaeth rhwng dau o adolygwyr y Cyngor a'r osteopath. Mae'r drafodaeth yn gyfle i archwilio rhai o elfennau'r Ffurflen Hunanasesu. Bydd yr adolygwyr yn gofyn i'r osteopath ehangu ar ei atebion, archwilio unrhyw feysydd sy'n destun pryder a thrafod ei gynlluniau arfaethedig i ailddechrau ymarfer yn y DU. Fel gyda'r cam blaenorol, gellir adfer statws ymarferydd llawn yr osteopath ar unwaith neu ei dderbyn i'r gofrestr ar ôl y drafodaeth, gyda neu heb

arweiniad ysgrifenedig. Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhai cwestiynau sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer adolygwyr.

## Canlyniad

9. Trwy gwblhau'r broses Dychwelyd i Ymarfer gan fodloni'r adolygwyr, mae'r osteopath yn gallu dangos ei fod yn gallu bodloni'r *Safonau Ymarfer Osteopathig.*

10. Ar gyfer y naill gam a'r llall bydd dau ganlyniad posibl:
    > Mae'r osteopath yn dychwelyd i ymarfer neu i'r gofrestr, heb ragor o arweiniad gan y Cyngor;
    > Mae'r osteopath yn dychwelyd i ymarfer neu i'r gofrestr gydag arweiniad ysgrifenedig ar ei DPP gan y Cyngor.

## Adroddiadau

11. Cefnogir y naill gam a'r llall gan adroddiad consensws adolygwyr y Cyngor a fydd yn egluro'r rhesymau am eu hargymhellion. Bydd yr adroddiad yn cael ei lunio yn unol ag amserlen y cytunir arni, fel arfer rhwng wythnos a phedair wythnos i dderbyn y ffurflen neu gynnal y drafodaeth. Mae Atodiad 3 yn cynnwys templed ar gyfer yr adroddiad.

## Arweiniad

12. Darperir arweiniad i helpu'r osteopath i ddychwelyd i ymarfer neu i'r gofrestr trwy weithgareddau DPP neu weithgareddau perthnasol eraill. Os oes angen darparu arweiniad ysgrifenedig, dylai adolygwyr y Cyngor ei ddrafftio'n glir fel rhan o'r adroddiad.

13. Gall yr arweiniad ysgrifenedig ddarparu cyngor ar DPP cyn neu ar ôl dychwelyd i ymarfer neu i'r gofrestr, a gall gynnwys y canlynol (ymysg pethau eraill):
    > Cyngor ar gysgodi cydweithwyr cyn dychwelyd i ymarfer;
    > Cyngor ar ymweld â sefydliad addysg osteopathig;
    > Cyngor ar ddulliau/rhwydweithiau cymorth ar gyfer yr osteopath, gan gynnwys, er enghraifft, dychwelyd i bractis grŵp yn hytrach na phractis unigol yn y lle cyntaf.

14. O ganlyniad i'r drafodaeth, y bwriad yw sicrhau bod rhai gweithgareddau'n cael eu cytuno gan yr osteopath a'r adolygwyr a'u bod yn sylfaen i gynlluniau DPP yr osteopath. Gall gweithgareddau eraill fod yn argymhellion i'w hystyried gan yr osteopath.

15. Nid oes modd i gofrestru fod yn amodol ar gwblhau'r gweithgareddau arfaethedig a amlinellir yn y cyngor a roddir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, argymhellir yn gryf y dylai'r arweiniad lywio cynlluniau DPP yr osteopath ar gyfer y cylch DPP sydd i ddod.

## Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer – Canllawiau ar gyfer Osteopathiaid

16. Nod y broses ar gyfer dychwelyd i ymarfer yn y DU yw datblygu unigolion, felly byddai'n fanteisiol i chi fyfyrio ar eich ymarfer blaenorol cyn cwblhau'r ffurflen hunanasesu.

17. Er mwyn cynorthwyo osteopathiaid i ddychwelyd i'r Gofrestr, rydym wedi paratoi'r 'broses Dychwelyd i Ymarfer' a bodloni gofynion y cynllun DPP newydd.

    Hefyd, mae adnoddau amrywiol sydd â'r nod o gynorthwyo osteopathiaid i gymryd rhan yn y cynllun DPP ar gael ar wefan y Cyngor cpd@osteopathy.org.uk. Mae'r adnoddau'n cynnwys:
    > llyfrau gwaith
    > templedi
    > arweiniad

18. Waeth beth yw eich dull gweithredu, dylech sicrhau eich bod yn gwneud y canlynol:
    > ystyried amgylchiadau unrhyw gyfnod o beidio ag ymarfer neu fyw y tu allan i'r DU;
    > ystyried eich cyfnod yn ymarfer cyn rhoi'r gorau i hynny neu adael y DU, ac ystyried eich cryfderau a'ch meysydd i'w datblygu.

19. Wrth gwblhau'r ffurflen, dylech sicrhau eich bod wedi gwneud y canlynol:
    > asesu eich cryfderau a'ch meysydd i'w datblygu yn drylwyr;
    > nodi meysydd ar gyfer datblygiad personol;
    > amlinellu camau gweithredu priodol i ddiwallu eich anghenion ymarfer;
    > ystyried eich strategaeth DPP ar gyfer y cylch tair blynedd sydd i ddod ar sail eich myfyrdodau.

## Trafodaeth Dychwelyd i Ymarfer – Canllawiau ar gyfer Osteopathiaid

20. Bydd y drafodaeth yn seiliedig ar eich ymatebion i'r cwestiynau yn y Ffurflen Hunanasesu.

21. Gan mai bwriad y broses dychwelyd i ymarfer yw cynorthwyo eich datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) fel osteopath, mae'n bwysig bod yn agored wrth nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu unigol a rhoi ystyriaeth fanwl i gamau gweithredu posibl, er mwyn i adolygwyr y Cyngor gynnig arweiniad sy'n fuddiol i chi.

22. Bydd adolygwyr y Cyngor yn archwilio'r canlynol gyda chi:
    > Trosolwg cryno o'ch amgylchiadau personol;
    > Am faint o amser y buoch chi'n ymarfer a/neu ddim yn ymarfer;
    > Eich rhesymau dros ddychwelyd i ymarfer yn y DU;
    > Sut a phryd rydych chi'n bwriadu dychwelyd i ymarfer;
    > Eich cynlluniau ar gyfer ymarfer yn y dyfodol (ymarferydd unigol neu'n gweithio gydag eraill);
    > Pa weithgareddau DPP rydych chi wedi'u cyflawni a pham;
    > Sut mae'r gweithgareddau DPP hyn wedi eich helpu i gynnal eich cymhwysedd clinigol a'ch sgiliau proffesiynol;
    > Pa agweddau ar eich cymhwysedd clinigol a'ch sgiliau proffesiynol sydd angen eu cryfhau yn eich barn chi (Bydd y drafodaeth hon yn seiliedig ar eich ymatebion i Adrannau 2 i 5 o'ch Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer);
    > Sut fyddech chi'n hoffi cryfhau'r meysydd hyn;
    > Pa gymorth ac arweiniad yr hoffech eu cael i'ch helpu i wneud hyn;
    > Eich cynlluniau DPP ar gyfer y dyfodol;
    > Pa gyfleoedd cymorth a rhwydweithio sydd eisoes ar gael i chi;
    > A oes gennych unrhyw bryderon neu feysydd eraill yr hoffech eu harchwilio gydag adolygwyr y Cyngor.

23. Bwriedir i'r drafodaeth arwain at weithgareddau y cytunir arnynt gan y ddwy ochr a fydd yn sylfaen i'ch cynlluniau DPP. Hefyd, gall yr adolygwyr wneud argymhellion i'w hystyried gennych chi. Argymhellir yn gryf y dylai'r arweiniad hwn lywio eich gofynion DPP ar gyfer y cylch DPP sydd i ddod.

24. Bydd adolygwyr y Cyngor eisiau bod yn fodlon eich bod yn derbyn cymorth llawn i ddychwelyd i ymarfer yn y DU. Byddant yn seilio eu hargymhellion ar eich gallu i fodloni gofynion y *Safonau Ymarfer Osteopathig*, fel y'i nodir gan eich lefel bresennol o sgiliau clinigol a phroffesiynol, a'r mentrau a amlinellir yn eich Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer i wella galluoedd penodol. Bydd yr arweiniad a nodir ym mhob adran o'r Safonau Ymarfer Osteopathig yn sylfaen i unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

# Atodiad 1 Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer

Gweler y **Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer – Canllawiau ar gyfer Osteopathiaid** cyn cwblhau'r ffurflen hon

Enw:

Rhif cyfeirnod:

Ddim yn ymarfer/oddi ar y gofrestr ers:

Cyfnod o ymarfer fel osteopath cyn dechrau'r cyfnod o beidio ag ymarfer (os yw'n berthnasol):

Dyddiad a ffefrir ar gyfer dychwelyd i ymarfer yn y DU:

## Adran 1: Dychwelyd i ymarfer

1.1 Pam ydych chi'n dychwelyd i ymarfer yn y DU?

1.2 Pam wnaethoch roi'r gorau i ymarfer yn y DU?

1.3 Ydych chi'n bwriadu dychwelyd i weithio'n llawn amser neu'n rhan-amser? Eglurwch.

1.4 Ydych chi'n bwriadu gweithio ar eich pen eich hun, neu mewn practis grŵp gydag osteopathiaid a/neu ymarferwyr iechyd eraill? Eglurwch.

## Adran 2: Cyfathrebu a phartneriaeth â chleifion

**Dylech ystyried A1 – A7 o'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* wrth gwblhau'r adran hon**

2.1 Pa weithgareddau ydych chi wedi'u cyflawni yn ystod eich cyfnod o beidio ag ymarfer neu'ch cyfnod oddi ar y gofrestr i'ch galluogi i gadw a gwella'r sgiliau gofynnol?

2.2 Gan gyfeirio at eich myfyrdodau ar y sgiliau hyn, a/neu ddadansoddiad o anghenion dysgu personol, a oes unrhyw feysydd y mae angen i chi eu cryfhau?

2.3 Sut ydych chi'n bwriadu gwella'r sgiliau hyn a pha gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch chi, os o gwbl?

## Adran 3: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

### Dylech ystyried B1 – B4 o'r Safonau Ymarfer Osteopathig

3.1 Pa weithgareddau ydych chi wedi'u cyflawni yn ystod eich cyfnod o beidio ag ymarfer neu'ch cyfnod oddi ar y gofrestr i'ch galluogi i gadw a gwella'r sgiliau gofynnol?

3.2 Gan gyfeirio at eich myfyrdodau ar y sgiliau hyn, a/neu ddadansoddiad o anghenion dysgu personol, a oes unrhyw feysydd y mae angen i chi eu cryfhau?

3.3 Sut ydych chi'n bwriadu gwella'r sgiliau hyn a pha gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch chi, os o gwbl?

## Adran 4: Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer

### Dylech ystyried C1 – C6 o'r Safonau Ymarfer Osteopathig

4.1 Pa weithgareddau ydych chi wedi'u cyflawni yn ystod eich cyfnod o beidio ag ymarfer neu'ch cyfnod oddi ar y gofrestr i'ch galluogi i gadw a gwella'r sgiliau gofynnol?

4.2 A oes unrhyw sgiliau sydd angen eu cryfhau yn y maes hwn yn eich barn chi?

4.3 Sut ydych chi'n bwriadu gwneud hyn a pha gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch chi, os o gwbl?

## Adran 5: Proffesiynoldeb

### Dylech ystyried D1 – D12 o'r Safonau Ymarfer Osteopathig

5.1 Pa weithgareddau ydych chi wedi'u cyflawni yn ystod eich cyfnod o beidio ag ymarfer neu'ch cyfnod oddi ar y gofrestr i'ch galluogi i gadw a gwella'r sgiliau gofynnol?

| |
|---|
| |

5.2 A oes unrhyw sgiliau sydd angen eu cryfhau yn y maes hwn yn eich barn chi?

| |
|---|
| |

5.3 Sut ydych chi'n bwriadu gwneud hyn a pha gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch chi, os o gwbl?

| |
|---|
| |

## Adran 6: Sylwadau cyffredinol

6.1 Hoffech chi grybwyll unrhyw faterion eraill neu wneud unrhyw sylwadau eraill?

**Diolch i chi am gwblhau'r ffurflen hon.**
**Ar ôl cwblhau'r ffurflen, dylech ei hanfon i'r cyfeiriad canlynol:**

The Registration Department
General Osteopathic Council
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU

# Atodiad 2 Trafodaeth Dychwelyd i Ymarfer – Cwestiynau ar gyfer Adolygwyr

**Mae'r cwestiynau hyn yn cyd-fynd â'r Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer, a'u bwriad yw darparu cyfres o gwestiynau trafod. Deallir y bydd cwestiynau'r adolygydd yn seiliedig ar ymatebion yr osteopath i'r ffurflen. Mae modd cofnodi ymatebion yr osteopath i'r cwestiynau yn y bocsys, a byddant yn sylfaen i'r adroddiad.**

## Adran 1: Dychwelyd i ymarfer

1.1 Am faint o amser fuoch chi'n ymarfer cyn rhoi'r gorau i ymarfer yn y DU, a pham y gwnaethoch chi roi'r gorau i ymarfer?

| |
|---|
| |

1.2 Pam ydych chi wedi penderfynu dychwelyd i ymarfer yn y DU yn awr? Pryd fyddwch chi'n dechrau?

| |
|---|
| |

1.3 Pam ydych chi wedi dewis gweithio'n llawn amser/rhan-amser (dilëwch fel sy'n briodol)? Sut fyddwch chi'n dychwelyd i ymarfer yn raddol yn y DU?

| |
|---|
| |

1.4 Pam ydych chi wedi penderfynu gweithio'n annibynnol/gydag osteopathiaid/ymarferwyr iechyd eraill (dilëwch fel sy'n briodol)? A yw hyn yn wahanol i'ch sefyllfa flaenorol? Beth fydd y manteision? A oes unrhyw anfanteision?

1.5 Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol?

## Adran 2: Datblygiad proffesiynol parhaus

**Bydd y rhan hon o'r drafodaeth yn seiliedig ar ymatebion yr osteopath i Adrannau 2 i 5 o'r Ffurflen Hunanasesu Dychwelyd i Ymarfer**

2.1 Sut ydych chi wedi cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf ym maes *Safonau Ymarfer Osteopathig*/deddfwriaeth? (Defnyddiwch enghraifft gyfredol.)

2.2 Pa weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ydych chi wedi'u cyflawni pan nad oeddech chi'n ymarfer neu pan oeddech chi oddi ar y gofrestr er mwyn cadw eich cymhwysedd clinigol a'ch sgiliau proffesiynol ym mhob un o'r pedwar maes?

2.3 Ym mha feysydd ymarfer ydych chi wedi cadw eich sgiliau yn fwyaf effeithiol yn eich barn chi?

2.4 Pa agweddau ar eich cymhwysedd clinigol a'ch sgiliau proffesiynol sydd angen eu cryfhau yn eich barn chi? Pa agweddau fyddech chi'n rhoi blaenoriaeth iddynt?

2.5 Sut fyddech chi'n cryfhau eich sgiliau yn y meysydd hyn?

2.6 Pa gymorth ac arweiniad hoffech chi eu cael i'ch cynorthwyo?

2.7 Beth yw eich cynlluniau DPP?

2.8 Ydych chi wedi ystyried ymweld â sefydliad addysg osteopathig i weld sut mae myfyrwyr yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd?

2.9 Pa gymorth a chyfleoedd rhwydweithio sydd ar gael i chi ar hyn o bryd?

## Adran 3: Sylwadau cyffredinol

**Dylid atgoffa'r osteopath y dylai gweithgareddau sy'n cael eu hargymell gan adolygwyr y Cyngor fod yn sylfaen i'w DPP am y flwyddyn i ddod**

3.1 A oes gennych unrhyw bryderon neu feysydd eraill yr hoffech eu harchwilio gyda ni?

3.2 Hoffech chi ychwanegu unrhyw beth arall a allai ein helpu i gynnig arweiniad er mwyn cynorthwyo eich DPP?

## Adran 4: DPP ac Argymhellion

4.1 Cytunwyd ar y gweithgareddau DPP canlynol yn ystod y drafodaeth (rhestrwch):

4.2 Gwnaed yr argymhellion canlynol i'w hystyried gan yr osteopath hefyd (rhestrwch):

# Atodiad 3 Templed Adroddiad y Broses Dychwelyd i Ymarfer

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn (*dilëwch fel sy'n briodol*)
   > adolygiad o'r Ffurflen Hunanasesu a gwblhawyd gan < enw'r osteopath> ac a gyflwynwyd ar <dyddiad>
   > trafodaeth a gynhaliwyd gyda <enw'r osteopath> ar <dyddiad>

2. Mae'r adroddiad wedi'i baratoi ar y cyd gan <enw adolygydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol> a <enw adolygydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol>.

## Dychwelyd i ymarfer

3. Dylai'r adran hon gynnwys crynodeb o resymau'r osteopath dros ddychwelyd i ymarfer a/neu i'r gofrestr, pam ei fod wedi rhoi'r gorau i ymarfer neu ddod oddi ar y gofrestr, a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gweler adran 1 o 'Dychwelyd i Ymarfer – cwestiynau ar gyfer adolygwyr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol'.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

4. Dylai'r adran hon gynnwys gwerthusiad o'r prif weithgareddau DPP y mae'r osteopath wedi'u cyflawni er mwyn cadw ei gymhwysedd clinigol a'i sgiliau proffesiynol; ei ymwybyddiaeth o'i gryfderau ei hun a'i anghenion dysgu personol o dan bob un o feysydd y Safonau Ymarfer Osteopathig; addasrwydd ei gynlluniau ar gyfer datblygiad; y cymorth sydd ei angen arno yn eich barn chi a'i allu i fanteisio arno.

## Cryfderau

5. Rhowch grynodeb o gryfderau'r osteopath.

## Meysydd i'w datblygu

6. Rhowch grynodeb o feysydd i'w datblygu gan yr osteopath.

## Argymhelliad

7. Gweler 'Proses Dychwelyd i Ymarfer - canllawiau – Canlyniad' ar gyfer yr argymhellion posibl.

8. Mae'r adolygwyr yn argymell bod yr osteopath yn dychwelyd i statws ymarferydd llawn neu'n dychwelyd i'r gofrestr heb ragor o arweiniad gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol/bod yr osteopath yn dychwelyd i ymarfer neu'n dychwelyd i'r gofrestr gydag arweiniad ysgrifenedig ar ei DPP gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (dilëwch fel sy'n briodol).

## Arweiniad

Gweler 'Dychwelyd i Ymarfer – canllawiau – Arweiniad' am awgrymiadau ar gyngor i ymgeiswyr.

9. Mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u cytuno gyda'r osteopath er mwyn cefnogi ei ddatblygiad proffesiynol parhaus: (Rhestrwch)

10. Mae'r adolygwyr yn cynnig yr argymhellion canlynol i'w hystyried gan yr osteopath: (Rhestrwch)

| Enw adolygydd y Cyngor: | Enw adolygydd y Cyngor: |
|---|---|
| Llofnod: | Llofnod: |
| Dyddiad: | Dyddiad: |